OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 595

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020

## RHAN 2

Gofynion i ddarparu gwybodaeth i deithwyr

### Darparu gwybodaeth cyn archebu ac wrth gofrestru

**3.**—(1) Rhaid i weithredwr unrhyw wasanaeth teithwyr rhyngwladol ddarparu'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (2) fel rhan o unrhyw gyfleuster a reolir gan y gweithredwr y caiff person ei ddefnyddio—

(a) i archebu taith ar y gwasanaeth, neu

(b) i gofrestru i deithio ar y gwasanaeth.

(2) Yr wybodaeth a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) yw—

(a) yn achos cyfleuster a ddarperir ar lein—

(i) dolen i www.gov.uk/uk-border-control, a

(ii) dolen i www.llyw.cymru/coronafeirws ynghyd â datganiad bod yr wybodaeth a geir ar y ddolen honno yn cynnwys y cyngor diweddaraf o ran iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â'r coronafeirws yng Nghymru,

wedi ei gosod mewn lle amlwg fel bod y dolenni yn weladwy cyn archebu neu gofrestru;

(b) yn achos cyfleuster a ddarperir dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, cyfarwyddyd—

(i) i ddarllen yr wybodaeth ar www.gov.uk/uk-border-control, a

(ii) i fynd i www.llyw.cymru/coronafeirws ynghyd â datganiad bod yr wybodaeth a geir ar y ddolen honno yn cynnwys y cyngor diweddaraf o ran iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â'r coronafeirws yng Nghymru;

(c) yn y naill achos neu'r llall, cais i drosglwyddo'r wybodaeth a grybwyllir yn is-baragraff (a) neu (b) (yn ôl y digwydd) i unrhyw berson—

(i) yr archebir taith ar ei ran, neu

(ii) y cofrestrir ar gyfer taith ar ei ran.

(3) Pan na fo'r gweithredwr yn rheoli'r broses archebu neu gofrestru yn uniongyrchol, rhaid i'r gweithredwr gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod y person sy'n rheoli'r broses yn cydymffurfio â pharagraff (1) ar ran y gweithredwr.

### Darparu gwybodaeth yn ystod taith

**4.**—(1) Rhaid i weithredwr gwasanaeth teithwyr rhyngwladol sicrhau y darperir pob teithiwr ar y llestr neu'r awyren â'r datganiad a nodir yn yr Atodlen yn ystod y daith i'r porthladd yng Nghymru.

(2) Rhaid darparu'r datganiad ar lafar yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn iaith a gydnabyddir yn swyddogol yn y wlad yr ymadawyd â hi.

**Eithriad o ofynion rheoliadau 3 a 4**

**5.** Nid oes dim yn rheoliad 3 neu 4 yn ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth i berson sydd, yn rhinwedd oedran neu alluedd meddyliol, yn annhebygol o allu ei deall.